**Gair gan y Maer**

**Dydd Nadolig**

Ymwelodd y Maer, staff a chleifion Ysbyty Bryn Beryl bore Nadolig ac yna ymwelodd â phreswylwyr a staff Cartref Plas y Don. Cyn diweddu gydag ymweliad â staff a phreswylwyr Cartref Tan y Marian. Dywedodd ei fod yn hynod falch o gyfarfod gyda phawb. Diolchodd i bawb am y croeso ac i'r holl staff sy'n gofalu am eraill trwy'r flwyddyn.

**Cystadleuaeth Ffenestri Nadolig**
Diolchodd y Maer i bawb am gystadlu yn y gystadleuaeth blynyddol.
Dywedodd y Maer bod y dref yn disgleirio unwaith eto i ddathlu'r ŵyl.
Llongyfarch i'r canlynol:

**Siopau**

| | |
|---|---|
| **1af a chwpan** | Cwmni Teithio Pwllheli |
| **2ail** | Karalyns |
| **3ydd** | Teithiau Wonderling |

**Tai**

| | |
|---|---|
| **1af** | Mrs Seynor, Yr Ala |
| **2ail** | Ms Wendy Williams, 54 Ffordd Mela |
| **3ydd** | Ms Marel Roberts, Brynhelyg, Allt Salem |

**Addurniadau o Ailgylchu**

Diolchodd y Maer i Swyddogion Cefnogi Cymuned yr Heddlu Pwllheli a'r holl wirfoddolwyr am eu gwaith wrth addurno gyda nwyddau wedi eu hail-gylchu (teiars) o amgylch y dref.
Roedd yr addurniadau diddorol yn greadigol iawn.

**Raffl Nadolig Tenovus**
Tynnod y Maer Raffl Nadolig Siop Tenovus yn y dref a chwrdd â gwirfoddolwyr un o elusenau yn y dref. Mr Myrddin Owen enillodd y prif wobr, sef hamper nwyddau Nadolig. Diolchodd Y Maer i bawb am gefnogi'r elusen ac am eu gwaith.

**Jonathan Roberts**

Bu farw'r cyn Cynghorydd Joanthan Roberts yn sydyn wythnos diwethaf. Er iddo ddioddef blynyddoedd lawer gyda'i iechyd. Roedd ei ysbryd a'i gariad at Bwllheli yn parhau. Un nad oedd yn ofni lleisio'i farn am unrhyw annhegwch gan unrhyw swyddog na chyngor. Coffa da amdano, a diolch am ei wasanaeth a'i ymdrechion dros ein tref. Cydymdeimladau i'w deulu a'i ffrindiau.
Bu i'r cynghorwyr sefyll am funud o dawelwch er cof amdano.

**Eric Wyn Roberts**
10fed Ionawr, 2019